ASTUDIAETH ACHOS
CRWYDRO'R PRESELAU

Defnyddiodd yr ysgol y gweithgaredd ar Tirluni ddechrau. Fodd bynnag, roedd y dysgwyr am ddarganfod mwy am atyniad i dwristiaid yn lleol yr oeddent wedi bod ar ymweliad yno'n ddiweddar, sef Pentref Oes Haearn Castell Henllys.



Trafododd y dysgwyr y cwestiynau canlynol:

- Beth a olygwn wrth 'cynhanes'?
- Beth a wyddwn am sut beth oedd bywyd yn ystod y cyfnod hwn?
- Pam fod yna dri chyfnod amser gwahanol yn Oes y Cerrig?
- Sut ydyn ni'n gwybod bod y dirwedd wedi newid yn ystod y cyfnodau hyn? Pam y newidiodd y dirwedd?
- Beth allwch chi ei ddweud am hyd y cyfnod cynhanes o'i gymharu â'r amseroedd yn dilyn goresgyniad y Rhufeiniaid ar Gymru?

Yna, fe wnaeth y dysgwyr feddwl pam fod safleoedd hanesyddol fel Castell Henllys yn bwysig yn y byd modern, cyn ystyried pam mae pobl yn ymweld â Chastell Henllys.

Dywedwyd wrth y dysgwyr fod problem yng Nghastell Henllys, oherwydd ei fod yn gwneud colled o £20,000 bob blwyddyn.

Dywedwyd wrthynt ei fod yn eiddo i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n gwneud iawn am y golled ariannol. Hefyd, eglurwyd nad oes llawer wedi newid yn y castell mewn 20 mlynedd ar wahân i welliannau i'r Ganolfan Ymwelwyr, adeiladu un cwt a gwaith atgyweirio cyffredinol. Mae'r holl weithgareddau yr un fath.

Rhoddwyd y dasg i'r dysgwyr o feddwl am yr hyn sydd angen digwydd yng Nghastell Henllys. Cawsant rai syniadau i gychwyn ar y broses, gan gynnwys rhai archaeolegol, gardd berlysiau, profiad gwersylla o'r Oes Haearn a dylunio cwt newydd ar gyfer y safle. Unwaith roedd y dysgwyr wedi dylunio pob un o'r rhain a'u syniadau ar gyfer gweithgareddau, fe wnaethon nhw gyfansoddi e-byst i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn nodi eu syniadau.

Dyma syniadau'r athro ar gyfer gweithgareddau y gallai'r dysgwyr eu gwneud wrth iddynt ymgysylltu â'r dasg.

Activities

- Video – Positives and negatives of the site. - Castell Henllys. Make iMovie.
- Experts – engaging experience – YGG take over. COAST TO COAST ACTIVE READING.
- Voice 21 – What can we learn from the Celts when trying to become more sustainable citizens – Consensus circle – Trios.
- **Supply pictures - make an iMovie – include Welsh.**
- Artefacts – what can we tell about the Iron Age time by looking at the artefact? - dig catalogue artefacts, record observations answer questions bucket or tray of soil. - identify period.
- Education Officer – improve the site – no signs/information/ quiz.
- **WALK through herbs – gather into a basket – place in jars – label with what they could cure.**
- **Design (numeracy) 3 gardens – 3 different purposes – plant dyes, cooking, medicine.**
- **TIMELINE / Map.**
- **Model huts – area – model – Diameter of huts at Castell Henllys – recreate an accurate model.**
- **Warrior paint – symbols???**
- **Rotational symmetry designs.**